

## PARKER, JOHN (1798-1860), clericwr ac arlunydd

**Enw:** John Parker

**Dyddiad geni:** 1798

**Dyddiad marw:** 1860

**Rhiant:** Sarah Parker (née Browne)

**Rhiant:** Thomas Netherton Parker

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** clericwr ac arlunydd

**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaerniaeth; Crefydd

**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 3 Hydref 1798, ail fab Thomas Netherton Parker, Sweeney Hall, gerllaw Croesoswallt, a'i wraig, Sarah Browne (aeres ei hewythr, Edward Browne, Sweeney Hall). Cafodd ei addysg yn ysgol Eton a Choleg Oriol, Rhydychen (B.A. 1820, M.A. 1825). Bu'n gurad Moreton Chapel, Croesoswallt, am gyfnod byr cyn cael rheithoraeth Llanmerewig, Sir Drefaldwyn, o'r lle y symudodd, yn 1844, i ficeriaeth Llanyblodwel, Sir Amwythig. Bu farw 31 Awst 1860 yn Llanyblodwel, a'i gladdu ym mynwent yr eglwys yno. Gwnaeth lawer o gyfnewidiadau ac o atgyweiriadau yn y naill eglwys a'r llall, yn ôl ei gynlluniau ei hun, ac i raddau helaeth ar ei gost ei hun, gan adeiladu tŷ a phorth yn Llanmerewig a thŷ yn Llanyblodwel; adeiladodd ysgol ac ysgoldy yn Llanyblodwel. Etifeddodd stad Sweeney yn 1854 ar farw ei dad (a oedd yn gynlluniwr tai ac yn awdur llyfrau), a phan fu John Parker ei hunan farw yn 1860 aeth y stad i feddiant ei chwaer, [Mary Parker](#).

Nid fel offeiriad plwyfi yng Nghymru a'r goror nac fel perchennog stad y cofir am John Parker bellach, eithr fel arlunydd celfydd, yn enwedig am ei waith mewn dyfr-liw. Darlunio golygfeydd natur, eglwysi a'r hyn a oedd ynddynt, yn enwedig eglwysi 'Gothig,' a chestyll, oedd ei brif ddiddordebau. Ymwelodd ag ardal y Wyddfa ddeng mlynedd yn olynol; darluniodd sgriniau croglofftydd lle bynnag y ceid hwynt yn eglwysi Cymru a hefyd y prif fathau o fedyddfeini. Y mae dros fil o ddarluniau o'i waith yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru heblaw y rhai sydd yn nhai rhai o ddisgynyddion ei chwaer. Ymwelodd â Lloegr, Iwerddon, a chyfandir Ewrop hefyd gan ddarlunio pob math o eglwysi 'Gothig,' etc.; gwnaeth hefyd lu o ddarluniau blodau a phlanhigion. Cyhoeddodd, 1831, *The Passengers: containing the Celtic Annals*.

Yr oedd ei chwaer, MARY PARKER (1799 - 1864), a ddaeth yn LADY LEIGHTON yn 1832 (ar ei phriodas â Syr Baldwin Leighton, 7fed barwnig, Loton, Sir Amwythig), yn arlunydd talentog hefyd. Ceir esiamplau o'i gwaith hithau yn y Llyfrgell Genedlaethol, rhai ohonynt yn gyffelyb i waith ei brawd a rhai ohonynt yn portreadu personau. Hyhi (yn unig) a lwyddodd i wneuthur darlun o'r ddwy 'Ladies of Llangollen'; dyma'r darlun adnabyddus y gwnaethpwyd copïau lithograff ohono'n ddiweddarach (y mae darlun gwaelach ar gael, wedi ei gopïo heb ganiatâd oddi ar lun Mary Parker; am yr hanes gweler *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, v, 207-8).

**Awdur**

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, ii, 87-8; iv, 90-1; v, 69,207-8

catalogau Ll.G.C. o arddangosfeydd darluniau John Parker

*Archaeologia Cambrensis*, III, ii, vi, vii, xi; IV, ix

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [233413687](#)

Wikidata: [Q18756864](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

